**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-655
Ein cyf/Our ref:FM -/00177/16

William Powell AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

23 Mawrth 2016

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2016 ynglŷn â deiseb P-04-655 "Mynnu ein hawliau i'r Gymraeg yn y sector breifat".

Rwyf wedi darllen y sylwadau ychwanegol yn sgil ystyriaeth y deisebydd o fy llythyr blaenorol yn ddyddiedig 11 Ionawr 2016, a'r sylwadau yn sgil yr ohebiaeth a dderbyniodd y Pwyllgor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Does dim materion i mi ateb yn y llythyr cyntaf wrth y deisebydd yn ddyddiedig 17 Rhagfyr 2015. Fel i mi nodi yn fy llythyr cyntaf ynglŷn â'r ddeiseb hwn ar 14 Hydref 2015, mater i Gomisiynydd y Gymraeg yw pennu pa gyrff i gynnwys mewn ymchwiliadau safonau.

Mewn ymateb i lythyr y deisebydd yn ddyddiedig 28 Ionawr 2016, gallaf gadarnhau nad oes dealltwriaeth anysgrifenedig rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiynydd i beidio â gweithredu'r Mesur yn llawn. Rwy'n ymwybodol bod y Comisiynydd wedi cyhoeddi'i bwriadau ar gyfer cynnal ymchwiliadau safonau yn 2016, ac mae'r rheiny'n cynnwys cyrff sector preifat. Bydd yr ymchwiliadau hynny yn arwain at ddatblygu safonau ar gyfer cyrff o fewn y sectorau trafnidiaeth, trydan, a nwy. Bydd hynny'n gam sylweddol ymlaen o ran gweithredu'r Mesur ac yn gynnydd sylweddol o'r hyn a gyflawnwyd o dan yr hen drefn Cynlluniau Iaith.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.